

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed Fawrth 2019

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Maria Roberts, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Guto G Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Ffuon Williams, Ieuan Jones, Maria Roberts.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain Ionawr 2019.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau. Cytunodd John D Jones wneud ymholiadau i geisio ymgymryd y gwaith.

[1.2] Ffermydd Gwynt/ Cyfraniad Clean Earth

Penderfynwyd gadael y mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

[1.3] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd yn siomedig bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud a bod y Cyngor Sir wedi datgan bod y gwaith ar y rhestr i gael sylw. Cytunodd Cyng. Peter Lewis i wneud ymholiad gyda'r adran briffyrdd.

[1.4] Arwydd Cyflymder Stryd King

[a] Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn nad yw'r arwydd yn gweithio'n gywir

[b] Gan nad oes arwydd fflachio bellach gyferbyn a'r ysgol. Y clerch i wneud ymholiad ynglŷn â chael a gosod marciau melyn ar y ffordd.

[1.5] Peiriant Twll yn y Wal / Codi Taliad am ei Ddefnydd

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Cynllun Chwarae'r Haf

Deallwyd bod y gost o drefnu pedwar sesiwn peldroed yn £240.00 yn ychwanegol i gost cynllun chwarae'r haf

Y brif Agenda

[1.7] Cyllideb

Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2019/20 a baratowyd gan y clerch.

[1.8] Ms Helen Williams

Cyfeiriodd y clerch at lythyr gan Ms Helen Williams yn datgan diddordeb i brynu darn o dir yng nghae llwyd sydd yn taro ar ardd o'i heiddo. Y clerch i edrych yn ôl ar gofnodion cynharach ynglŷn â'r mater.

[1.9] Asesiad Risg

Ystafell Blwyf

- [a] Nodwyd bod cynhaliaeth flynyddol wedi ei gwblhau i'r ddau ddiffoddwr tan
 - [b] Bod archwiliad trydanol wedi ei gwblhau yn ystod 2018
 - [c] Mynwentydd
- Cadarnhaodd y clerc fod y gwaith draenio wedi ei gwblhau yn y fynwent newydd.

[2] Rheolaeth Mewnol

Penderfynwyd parhau ymlaen gyda'r trefniadau presennol fel a ganlyn;

- [a] Pob taliad sic a derbyniadau i gael ei gofnodi
- [b] Mantolen cyfrifon blynyddol i gael ei dosbarthu i bob aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- [c] Pob sic i gael ei lofnodi gan aelod a'r clerc.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

Cyngor BS Conwy –Datganiad o Egwyddorion Gamblo

[2.2] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn ;
Ambiwllans Awyr Cymru £100.00

Cadeirydd _____